# Amcangyfrif o incwm a gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*

**Hydref 2003**

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005

## Cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Cefndir**

1. O dan Adran 93(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'm hincwm a'm gwariant i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r amcangyfrif hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2005 ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r memorandwm ar fy mlaenraglen arfaethedig o waith gwerth am arian, y byddaf yn ei drafod gyda'r Pwyllgor ar 23 Hydref 2003.

2. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 yr wyf, yn unol ag Adran 92(1) o Ddeddf 1998, wedi trefnu bod Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i ategu fy swyddogaethau statudol. Bydd y trefniadau hyn yn parhau ar gyfer 2004-05.

3. Yn Ebrill eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft er mwyn cynnal ymgynghoriad arno. Os daw i rym, bydd y Mesur yn trosglwyddo'r swyddogaethau a weithredir ar hyn o bryd gan Gomisiwn Archwilio Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn ogystal, byddai'n creu "Swyddfa Archwilio Cymru", gyda'r Archwilydd Cyffredinol yn bennaeth arni a throsglwyddo contractau cyflogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a staff y Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r sefydliad newydd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ar y rhagdybiaeth y bydd y trefniadau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2005. Felly, mae'n debygol y bydd fy amcangyfrifon ar gyfer 2005-06 a blynyddoedd ariannol diweddarach yn seiliedig ar drefniadau a fydd yn dra gwahanol i'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd.

4. Yn yr un modd ag mewn blynyddoedd blaenorol, gellir dadansoddi fy amcangyfrif ar gyfer 2004-05 o dan y categorïau canlynol:

   - archwilio cyfrifon;
   - archwiliad gwerth am arian;
   - gwaith archwilio arall; a
   - gwasanaethau proffesiynol, technegol a gwasanaethau eraill.

   Ceir esboniad manylach o bob categori yn y nodiadau esboniadol sy'n dilyn yr Amcangyfrif.

**Cymorth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Archwiliad Ariannol**

5. Prif nod fy ngwaith archwilio ariannol yw darparu sicrwydd, gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r Cynulliad ar y cyfrifo cywir ar gyfer adnoddau cyhoeddus a'r defnydd cywir ohonynt. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith hwn i'r Cynulliad, rwyf yn bwriadu helpu sefydliadau cyhoeddus i wella eu rheolaeth ariannol.

6. Mae fy ngwaith archwilio ariannol yn cyfrannu at y nodau hyn mewn tair ffordd:

- drwy roi'r sicrwydd i'r Cynulliad bod y datganiadau ariannol yn dangos darlun gwir a theg, eu bod wedi'u paratoi yn unol â gofynion cyfrifo perthnasol a gofynion eraill, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli, a hynny ym mhob ffordd berthnasol;

- drwy nodi, asesu ac archwilio risgiau i gywirdeb a rheolaeth ariannol a chyflwyno adroddiadau ar wendidau o bwys; a

- drwy roi cyngor adeiladol i gyrff a archwilir er mwyn eu cynorthwyo i wella eu rheolaeth gorfforaethol, eu rheolaeth ariannol, eu rheolaeth a'u proses o gyflwyno adroddiadau.

7. Yn ystod 2004-05, byddaf yn rhoi barn archwilio ar 32 o gyfrifon yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2003-04 (gweler Atodiad A). Er mwyn ategu'r farn hon, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnal ei waith yn unol â Safonau Archwilio'r DU a gyhoeddir gan Fwrdd Arferion Archwilio'r DU. Os bydd mater yn ymwneud â rheoleidd-dra, cywirdeb neu reolaeth ariannol perthnasol yn codi yn ystod y gwaith hwn sydd, yn fy marn i, yn cyfiawnhau ei dynnu at sylw'r Cynulliad, byddaf yn cyflwyno adroddiad esboniadol er mwyn ategu'r farn archwilio. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar arian GIG Cymru ac Adroddiad Cyffredinol ar faterion sy'n codi o'm gwaith archwilio ariannol.

8. Yn ogystal â'r farn archwilio a'r adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi, byddaf, yn unol â gwerth gorau, yn parhau i roi cyngor i reolwyr cyrff cyhoeddus ar feysydd lle gellir gwella eu rheolaeth ariannol a'u trefniadau cyfrifo a rheolaeth gorfforaethol. Yn ôl yr arfer, mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynychu cyfarfodydd archwilio'r cyrff hynny neu bwyllgorau rheolaeth gorfforaethol er mwyn trafod y gwaith archwilio a'n canfyddiadau.

9. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i ddatblygu ei ddull archwilio ariannol er mwyn parhau'n ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o fewn y proffesiynau cyfrifo ac archwilio, i ganolbwyntio ar feysydd allweddol o risg archwilio ac i wneud y defnydd gorau posibl o ddatblygiadau technolegol. Mae ei waith yn destun nifer o fesurau i sicrhau bod y safonau a bennir gan y Bwrdd Arferion Archwilio wedi'u rhoi ar waith yn gywir, yn cynnwys adolygiadau 'poeth' o archwiliadau parhaus o gyfrifon proffil uchel gan gyfarwyddwyr annibynnol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac adolygiadau 'oer' o'r archwiliadau sydd wedi'u cwblhau. Yn ogystal, mae Uned Fonitro ar y Cyd y proffesiwn cyfrifo yn cynnal arolygiadau annibynnol rheolaidd o'i

weithgareddau archwilio ariannol. Mae arolygiadau o'r fath yn rhoi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn sefyllfa gyfwerth â chwmnïau cyfrifo'r sector preifat lle mae arolygiadau o'r fath yn orfodol.

**Cymorth i'r Cynulliad Cenedlaethol – gwaith Gwerth am Arian**

10. Prif nod gwaith gwerth am arian yw rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r Cynulliad ynglyn â'r darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o arian cyhoeddus. Mae fy ngwaith gwerth am arian yn cwmpasu'r ystod lawn o weithgareddau a gynhelir gan y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a sefydliadau cyhoeddus eraill megis y GIG a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Yn ogystal ag ehangu atebolrwydd drwy gyhoeddi canlyniadau'r ymchwiliadau hyn, rwy'n bwriadu annog cyrff cyhoeddus i wella eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys nodi gwersi arfer da tra'n darparu gwaith craffu a sicrwydd annibynnol o ran ymddygiad priodol busnes cyhoeddus ac annog proses o gymryd risgiau a reolir yn dda.

11. Fy nod yw datblygu rhaglen gytbwys o astudiaethau gwerth am arian, gyda chymysgedd da o feysydd pwnc a mathau o archwiliad. Mae fy rhaglenni o bwys mawr i mi, ac maent yn cynnwys amrywiaeth o bynciau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i nodi'r cwmpas ar gyfer arbedion ariannol. Yn y pedair blynedd er i fy swydd gael ei sefydlu yn 1999, mae fy ngwaith wedi nodi'r cyfle ar gyfer sicrhau arbedion posibl o hyd at £90 miliwn, yn ogystal â nifer fawr o welliannau na ellir eu meintioli i systemau a'r broses o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

12. O dan Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i mi ystyried barn y Pwyllgor Archwilio wrth gynllunio fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian. Yn fy marn i, mae ymgynghoriad o'r fath yn amhrisiadwy – yn enwedig oherwydd bod fy adroddiadau yn darparu'r sail ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Mae fy archwiliadau archwilio a gwaith y Pwyllgor o ran casglu tystiolaeth a chyflwyno adroddiadau ar ôl hynny yn annibynnol ac yn elfen allweddol o'r broses o atebolrwydd i'r Cynulliad a'r cyrff sy'n gysylltiedig ag ef. Mae fy rhaglen arfaethedig ar gyfer gwaith gwerth am arian wedi'i nodi mewn memorandwm ar wahân.

**Gwasanaethau eraill**

13. Yn ogystal â'r gwaith statudol ariannol a gwerth am arian, fy nod yw darparu amrywiaeth o wasanaethau ategol ar gyfer y Cynulliad, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a threthdalwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

    (i) Darparu sesiynau briffio ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar fy adroddiadau a'm gwaith cyn sesiynau tystiolaeth, cynghori'r Pwyllgor ar y broses o ddrafftio ei adroddiadau ei hun, a chynnal gwaith dilynol a gymerir mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor ac ymateb y Cabinet;

    (ii) Cynnal gwaith er mwyn ymateb i ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a'r Senedd Ewropeaidd, a'r cyhoedd. Weithiau gall

gohebiaeth o'r fath weithredu fel sbardun ar gyfer ymchwiliad archwilio trylwyr a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad – mae'r adroddiadau diweddar ar werthu Ysbyty Talgarth a phroses Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant o Reoli Prosiectau Arloesi a Datblygu yn enghreifftiau diweddar o hyn.

(iii) Gwaith penodol a gynhelir ar gais cyrff a archwilir. Er enghraifft, gofynnir i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ar fy rhan, i ardystio nifer cynyddol o geisiadau a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglenni newydd a gynorthwyir gan gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd; ac

(iv) Archwiliadau a gynhelir ar gais Gweinidogion neu uwch swyddogion fel arfer er mwyn darparu barn annibynnol a gwrthrychol ar faterion penodol y maent yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, yn 2002 gofynnodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i mi adolygu'r costau a amcangyfrifir ar gyfer ailstrwythuro GIG Cymru. Cyn derbyn ceisiadau o'r fath, rwy'n ystyried y cylch gorchwyl yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddant yn peryglu unrhyw waith yn y dyfodol ac nad wyf yn cael fy nhynnu i mewn i faterion sy'n ymwneud â datblygu polisi, sef rhywbeth sydd y tu allan i'm pwerau statudol.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – datblygu Staff**

14. Y ffactor allweddol wrth gynnal ac ehangu safon yr allbynnau yw ansawdd y bobl sy'n cyfranogi mewn tasgau archwilio a'r hyfforddiant a ddarperir. Er mwyn archwilio 32 o gyfrifon bob blwyddyn, cyflawni rhaglen gwerth am arian o safon uchel ac ymgymryd ag amrywiaeth eang o wasanaethau archwilio a chymorth er mwyn darparu gwasanaeth archwilio o'r radd flaenaf i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae angen i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru allu recriwtio, cadw a gwobrwyo staff sydd â'r sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol. Mae hyn yn heriol ar adeg pan fo cystadleuaeth frwd am staff cyfrifo o safon uchel a staff arbenigol eraill ar draws yr economi gyfan. Yn arbennig, mae cystadleuaeth am raddedigion cymwys yn parhau'n gryf, gyda Sefydliad Recriwtwyr Graddedigion yn disgwyl i swyddi gwag godi 8 y cant yn 2003.

15. Nid cyflog yw'r unig ffactor sy'n penderfynu dewis gyrfa, a gall archwilio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gynnig amrywiaeth diddorol o waith i recriwtiaid posibl a chyfleoedd i wneud cyfraniadau uniongyrchol i waith y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyflog yn parhau'n rhan bwysig o unrhyw becyn ac nid oes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw ddewis heblaw o leiaf cadw o fewn cyrraedd ei brif gystadleuwyr.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – Cyfarpar a llety**

16. Mae'n bwysig bod staff yn meddu ar y cyfarpar cywir er mwyn ymdopi â newidiadau yn yr amgylchedd archwilio sy'n deillio o'r newid technolegol sy'n cyflymu a llywodraeth electronig. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi buddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn cynorthwyo ei weithrediadau archwilio ariannol ond mae angen buddsoddiad parhaus sylweddol mewn

caledwedd, meddalwedd a hyfforddiant er mwyn sicrhau y gellir bodloni heriau cynyddol archwilio yn amgylchedd yr 21ain ganrif.

**Ffactorau sy'n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio – newidiadau i'r maes archwilio**

17. Yn dilyn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2002 cafwyd cynnydd yng Nghyllideb Bloc Cymru o £9.7 biliwn yn 2002-03 i £12 biliwn yn 2005-06, cynnydd o 24 y cant. Yn ogystal, bydd lefelau uwch o wariant yn sgîl darpariaeth arian Amcan Un wrth i brosiectau pellach gychwyn. Bydd angen archwilio'r gwariant ychwanegol sy'n deillio o'r mesurau cyllidebol hyn er mwyn sicrhau bod Cymru yn sicrhau gwerth am arian cywir a bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio at ddibenion rheolaidd a chywir.

18. Digwyddodd y broses o ailstrwythuro GIG Cymru o Ebrill 2003. Bydd y sefydliadau newydd a'r ffyrdd newydd o weithio yn cymryd peth amser i setlo ond mae'n hanfodol na chaiff y gofyniad ar gyfer rheolaeth ariannol gywir, rheolaeth gorfforaethol a gwerth am arian ei hanwybyddu. Canlyniad arall yr ailstrwythuro yw y bydd yn ofynnol i mi, o 2004-05, archwilio cyfrif cryno'r 22 o fyrddau iechyd lleol, yn lle cyfrif cryno pum awdurdod iechyd lleol, yn ogystal â chyfrifon Canolfan Iechyd Cymru, ac Asiantaeth Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol).

19. Mae'r Trysorlys yn anelu at gynhyrchu cyfres o gyfrifon archwiliedig y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2005-06. Caiff cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru cyfatebol ei gynhyrchu gan Lywodraeth y Cynulliad a byddaf yn archwilio'r cyfrif hwn. Mae hyn yn cael ei gyflwyno drwy gamau graddol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04, bydd y cyfrif yn cynnwys cyfuno canlyniadau ariannol y Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a'r byrddau iechyd lleol. Mewn blynyddol dilynol caiff y terfyn ei ehangu i gynnwys ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Felly, yn cyfateb â hynny, bydd fy archwiliad yn mynd yn fwy cymhleth yn y blynyddoedd sydd i ddod. Rydym eisoes yn cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad drwy gyfranogi mewn gwaith datblygu a rhoi cynlluniau ar brawf.

20. Bydd yn rhaid i mi barhau i ddarparu ymatebion ystyriol i ohebiaeth gan Aelodau Cynulliad ac eraill. Mae hon yn elfen sylweddol o'm gwaith sy'n parhau i dyfu, yn rhannol oherwydd ymwybyddiaeth gyhoeddus gynyddol am fy ngwaith a gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Yn 2002-03, derbyniais 95 o lythyrau yr oedd angen ymateb annibynnol ar eu cyfer – cynnydd o 76 y cant ers y flwyddyn flaenorol a chynnydd o 179 y cant ar 2000-01; ac mae'r cynnydd hwn yn parhau yn y flwyddyn bresennol hyd yma.

21. Enghraifft arall o waith heb ei gynllunio yw fy adroddiad diweddar ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (a ystyriwyd gan y Pwyllgor ym Medi 2003). Wrth gwrs, mae'n bwysig iawn i mi allu parhau i allu cynnal ymchwiliadau fel hyn a chyflwyno adroddiadau ar y canlyniadau yn ôl yr angen.

22. Bydd y newidiadau hysbys i'r maes archwilio a grynhoir uchod, yn arwain at gynnydd yn y gwaith sydd ei angen i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, ac

felly mae angen eu hystyried yng nghyd-destun fy nghais am adnoddau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Cais am adnoddau**

23. Er gwaetha'r pwysau costau a gynhyrchir gan y ffactorau uchod, rydw i wedi gallu cadw fy nghais sylfaenol am adnoddau i £2,750,000 (cynnydd o £205,000 ar yr amcangyfrif o £2,545,000 yn 2003-04 ac sy'n llai, yn ôl cyfran, na'r cynnydd mewn gwariant cyhoeddus sy'n destun i'm gwaith craffu). Y gofyniad arian parod net cyfatebol yw £2,725,000 (£2,518,000 yn 2003-04).

24. Yn fy Amcangyfrif ar gyfer 2003-04, roedd fy nghais sylfaenol am adnoddau yn cynnwys cynnydd o £100,000 er mwyn cwmpasu cost ymarferion penodol a gynhaliwyd ar gais Gweinidogion y Cynulliad ac uwch swyddogion. Roedd gwaith o'r fath nad oedd wedi'i gynllunio wedi'i anfonebu'n uniongyrchol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd nad oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gallu anfonebu cost gwaith o'r fath, am resymau cyfreithiol. Er mwyn sicrhau tryloywder, ystyriais y dylai cost y gwaith hwn fod yn rhan uniongyrchol o'm cyfrifon blynyddol fel rhan o'm hamcangyfrif blynyddol, a chytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor llynedd.

25. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i mi ymgymryd â rhai tasgau penodol yn y flwyddyn ariannol bresennol a bydd angen defnyddio rhan o'r arian wrth gefn hwn er mwyn cyflawni hyn (er enghraifft, diweddariad ar gostau ailstrwythuro GIG Cymru ac ardystio ceisiadau grantiau'r UE a baratowyd o fewn y Cynulliad) ac rwy'n disgwyl derbyn ceisiadau tebyg yn ystod 2004-05.

26. Felly, rwy'n cynyddu fy nghais am adnoddau unwaith yn rhagor o £100,000 ychwanegol i £2,850,000, ac rwyf wedi gwneud cynnydd tebyg i'r gofyniad arian parod net. Byddaf ond yn defnyddio'r adnoddau wrth gefn ychwanegol hyn er mwyn cwmpasu cost unrhyw waith ychwanegol y gofynnir i mi ymgymryd ag ef ac mewn ymgynghoriad â Grŵp Cyllid y Cynulliad a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Pwysleisiaf fod hwn yn ddull ariannu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y symiau sy'n daladwy o gyllideb gyffredinol y Cynulliad. Ar gyfer 2005-06 a blynyddoedd diweddarach, byddai'r darpariaethau a gynhwysir o fewn Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn fy ngalluogi i anfonebu yn uniongyrchol ar gyfer gwaith o'r fath.

**Sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru – y costau tebygol ar gyfer 2004-05**

27. Yn yr Asesiad Effaith Reoliadol a gyhoeddwyd gyda'r Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft, nododd y Llywodraeth nad oedd costau unwaith ac am byth sefydlu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi'u penderfynu eto ond eu bod yn annhebygol o fod yn fwy na £500,000. Mae'n debygol y bydd llawer o'r costau hyn yn digwydd yn 2004-05 – er enghraifft, gwariant cyfalafol a refeniw ar greu technoleg gwybodaeth annibynnol, a chostau refeniw a wariwyd ar reoli'r broses o sefydlu'r swyddfa newydd a throsglwyddo staff o'r ddau gorff blaenorol.

28. Am resymau cyfreithio, nid fyddai'n briodol cynnwys y costau unwaith ac am byth hyn yn fy nghais ar gyfer adnoddau yn 2004-05 ar y cam hwn cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad er mwyn asesu a phennu costau'r gwaith cyfarpar cyfalaf ac adnoddau sefydliadol/dynol ychwanegol y bydd eu hangen er mwyn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru annibynnol, ac rwyf yn bwriadu paratoi memorandwm ar wahân ar y maes hwn er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Lle bydd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol Cymru dalu am gostau o'r fath, rwy'n cynnig ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor drwy gais atodol am adnoddau ar ôl i'r Mesur dderbyn ei ail wrandawiad yn Nhŷ'r Cyffredin.

29. Ceir dadansoddiad o'm Hamcangyfrif ar gyfer 2004-05, gyda nodiadau esboniadol, yn y tudalennau canlynol.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*3-4 Plas y Parc*
*Caerdydd*
*CF10 3DP*

*9 Hydref 2003*

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005

| | **amcangyfrif yn seiliedig ar adnoddau ar gyfer 2004-05 £000** | y ddarpariaeth yn 2003-04 £000 | alldro yn 2002-03 £000 | Cyfeirnod nodyn |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad cyfrifon | **1,370** | 1,205 | 1,163 | 1 |
| Archwiliad gwerth am arian | **1,395** | 1,300 | 1,213 | 2 |
| Gwaith archwilio arall | **305** | 185 | 245 | 3 |
| Gwasanaethau proffesiynol, technegol ac eraill | **295** | 370 | 154 | 4 |
| **Cyfanswm y treuliau** | **3,365** | 3,060 | 2,775 | |
| Incwm ffioedd | **(615)** | (515) | (504) | 5 |
| **CAIS NET AM ADNODDAU** | **2,750** | 2,545 | 2,271 | |
| **Gofyniad arian parod net** | **2,725** | 2,518 | 2,256 | |
| **Cais adnodd net yn cynnwys gwaith ychwanegol ar gyfer Gweinidogion ac uwch swyddogion** | **2,850** | 2,645 | n/a | 6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net yn cynnwys gwaith i Weinidogion ac uwch swyddogion** | **2,825** | 2,618 | n/a | 6 |

*Nid yw'r amcangyfrif yn cynnwys cost cyflog yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n daladwy'n uniongyrchol gan y Cynulliad o dan Adran 91 o Ddeddf 1998. Mae'r gofyniad arian parod net yn eithrio costau nad ydynt yn rhai arian parod (er enghraifft, dibrisiant) a symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr.*

*Ar y cam hwn yn y flwyddyn ariannol, ni ddisgwylir y bydd yr alldro ar gyfer 2003-04 yn wahanol iawn i'r ddarpariaeth.*

**Nodiadau esboniadol**

1. Mae'r gost o archwilio cyfrifon yn cwmpasu'r gwaith y mae'n ofynnol i mi ei gynnal yn unol â'r safonau a nodir gan y Bwrdd Arferion Archwilio er mwyn rhoi barn ar y cyfrifon a restrir yn Atodiad 1 ar gyfer blwyddyn gyfrif 2003-04. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwaith cychwynnol ar y cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05, a thasgau archwilio ariannol eraill.

2. Mae gwaith gwerth am arian yn cynnwys cynnal archwiliadau ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwiliadau a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad. Yn ogystal, mae'n cynnwys paratoi nodiadau briffio ar bynciau ad hoc i'r Pwyllgor, cyngor i gleientiaid, monitro gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad ar draws yr amrywiaeth llawn o'i swyddogaethau a datblygu fy mlaenraglen gwerth am arian. Ceir manylion pellach ar fy ngwaith gwerth am arian hyd yn hyn ac archwiliadau a gynigir ar gyfer y dyfodol yn y memorandwm a gyflwynir ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio.

3. Mae gwaith archwilio arall yn cynnwys cost gwaith rheolaeth gorfforaethol, ymweliadau arolygu â chyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus nad ydynt yn cael eu harchwilio gennyf a gwaith archwilio ychwanegol yr wyf yn ei gynnal ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar gais Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, mae'n cynnwys cost cynhyrchu fy Adroddiad Cyffredinol blynyddol i Gymru a'm hadroddiad blynyddol ar arian GIG Cymru.

4. Mae gwasanaethau proffesiynol, technegol a gwasanaethau eraill yn cynnwys y cymorth yr wyf yn ei roi i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer sesiynau tystiolaeth a chyngor ar adroddiadau olynol, paratoi fy amcangyfrif blynyddol, y gwasanaethau cyfrifo a chadw llyfrau sy'n ofynnol gan fy swyddfa, cost fy archwilwyr allanol (a benodir gan y Cynulliad), a chostau gweinyddol eraill sy'n codi wrth gynnal fy swyddfa.

5. O dan Adran 93(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i mi godi ffi am archwilio cyfrifo pob corff cyhoeddus, ac eithrio'r rheini a baratoir gan y Cynulliad ei hun. Yn ogystal, rwy'n codi ffi ar gyfer y gwaith archwilio ariannol arall yr wyf yn ei gynnal ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r

cynnydd dros incwm cyllidebol y llynedd yn bennaf oherwydd ffioedd ar gyfer gwaith newydd.

6. Mae'r £100,000 ychwanegol a ychwanegwyd i'r cais am adnoddau a'r gofyniad arian parod cyfatebol wedi'i gynnwys ar sail 'arian wrth gefn' i gwmpasu cost unrhyw waith ychwanegol a gynhelir ar gais penodol Gweinidogion neu uwch swyddogion. Dim ond ar gyfer cwmpasu cost y gwaith hwn y caiff ei ddefnyddio.

**Atodiad 1**

## Archwiliad o gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04 sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer eu cwblhau yn 2004-05

### Cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyfrif adnoddau'r Cynulliad (gweithgareddau craidd)
Cyfrif adnoddau cyfunol
Cyfrif Llywodraeth Cymru Gyfan
Cadw: Welsh Historic Monuments
Cyfrif Ardrethu Annomestig Cymru
Cronfa Bensiynau Aelodau'r Cynulliad
Cyfrif cryno o Fyrddau Iechyd Lleol Cymru
Cyfrif cryno o ymddiriedolaethau GIG Cymru
Asiantaeth Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)
Proffesiynau Iechyd Cymru [10 cyfrif]

### Cyfrifon a baratowyd gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig

Cyngor Celfyddydau Cymru*
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Estyn
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Menter Coedwigaeth Cymru
Cyngor Dysgu Cyffredinol Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cronfa Bensiynau Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru*
Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Comisiynydd GIG Cymru
Bwrdd Croeso Cymru [22 o gyfrifon]

* Bydd cyfrifon Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y ddau gorff hwn yn parhau i gael eu harchwilio gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol a'u cyflwyno gerbron y Senedd a'r Cynulliad